**Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll**

Cofnodion Cyfarfod 24ain Mehefin 2014

**Presennol:** A. Jones, A. Mummery, J. Roberts, Dennis Williams, , G. Parry, A. Thomas, H. Huws, , A. Williams, G. C. Jones Cynghorydd Sirol J. Evans, Meirion Jones, B. Jones, P. Roberts, Anewn Le Cras, Dafydd Owen (clerc)

**1. Ymddiheuriadau**: Mervyn Jones

**2. Datganiadau Diddordeb**. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

**3. Cadarnhau cyfrifion 2013/2014 i'r archwiliwr allanol**

3.1A. Mummery yn cynnig bod cyfarfod Pwyllgor Cylid a Fynwent yn cael ei newid I 15fed o Gorffennaf am ei fod yn gwrthdaro gyda cyfarfod Cyngor Penmynydd.

3.2 Pawb yn hapus gyda'r cyfrifion

**4. Cyfrifion mis Mehefin 2014**

4.1 A. Mummery yn dweud fod y Cyngor wan mewn sefyllfa i ostwng y 'standing charge' ar bill dwr y Clwb Bowlio dros y gaeaf am fod dim defnydd ar y system carthffosiaeth.

4.2 Pawb yn hapus gyda Cyfrifion y Cyngor Bro

4.3 Pawb yn hapus gyda Cyfrifion y Neuadd Goffa

4.4 Pawb yn Hapus gyda Cyfrifion y Fynwent

**5. Materion y Cyngor Sir**

5.1 A. Mummery wedi rhoi cwyn i'r Cyngor Sir am y dwr sydd yn sefyll y tu allan I'r feddygfa pan mae hi'n bwrw glaw.

5.2 A. Jones yn llongyfarch J. Evans am ei wneud yn is-gadeirydd yn y Cyngor Sir.

**6. Cyflwyno a cadarnhau cofnodion cyfarfod blynyddol Mai 27 2014**

6.1 Cywiriad bod G. C. Jones yn bresennol yn y cyfarod.

6.2 Cynigwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan A. Jones. Derbynwyd y cofnodion fel y rhai cywir wedi y newidiad.

**7. Materion yn codi o'r cofnodion**

7.1 Twr Marcwis wedi cau – Jones Peckover yn gwneud ymholiadadau os oes modd I rhywun gymeryd drosodd. Cyngor Bro I rhoi pwysau ar y Cyngor Sir a Jones Peckover I weld beth sydd yn digwydd.

7.2 Alun Jones, A Mummery a Dafydd Owen am gyfarfod Menter Mon Amser Cinio Dyll Llun 28fed Gorffennaf ynghlun a'r wefan.

7.3 Caniatad am osod baneri ar golau stryd. Clerc I ddilyn I fyny.

7.4 Clerc I ysgrifennu at ddau deulu I'w hysbysu fod cerrig beddau mewn cyflwr peryglus. J Roberts yn cynnig fod tâp yn cael ei rhoi ogwmpas dros dro tan mae'r cerrig wedi ei gwneud yn saff.

7.5 Goleuadu y tu allan I'r pafiliwn wedi'I dorri – Gavin Roberts I edrych arno.

7.6 Carffosiaeth ar lannau'r Fenai ger eglwys Santes Fair. Cler I hysbysu Dwr Cymru ac Adnoddau Cymru I'w hysbysu

7.7 Gofyn I'r Cyngor Sir os oes bwriad gosod plac ar hen dy Kyffin Williams yn Pwllfanogl

7.8 Llwybyr beicio – clerc I gysylltu gyda Jenny Clarke yn y Cyngor Sir I ofyn am amserlen

**8. Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd a Eiddo Mehefin 10 2014**

8.1 A Jones yn cynnig ei bod yn gywir, B Jones yn eilio

**9. Materion yn Codi**

9.1 Clerc I ofyn I Aled Lewis CSYM I ddod I'r pwyllgor Amgylchedd a Eiddo nesaf I siarad am gyfleoedd gwirfoddoli.

9.2 A Mummery yn llongyfarch Bethan Jones am y gwaith o osod y teiars a blodau.

9.3 A Mummery yn dweud fod Colin ddim yn cael digon o oriau I wenud ei waith I gyd wedi derbyn cwyn am y maint o sbwriel yn y gors. Gareth Jones yn cynnig efallai fod angen mwy o oriau arno I wneud y gwaith I gyd. A Mummery yn cytuno I reoli gwaith Colin.

**10. Adroddiad VAT Capital (Neuadd Goffa)**
10.1 Menter Môn ar hyn o bryd yn cynorthwyo ar geisiadau grantiau am y Neuadd Goffa.

**11. Ceisiadau Cynllunio**
Dim ceisiadau

**12. Gohebiaeth**
12.2 Un Llais Cymru - H Huws am fynd I'r cyfarfod blynyddol 26 Mehefin 2014

**13. Unrhyw Fater Arall**
13.1 Llythyr gan Hwfa yn dweud bod dim cadeiriau yn y Neuadd Goffa a dim a dim esboniad na chaniatâd wedi ei rhoi. Clerc I yrru llythyr I longyfarch y carnifal ond yn codi y mater o 'r cadeiriau a hefyd parcio yn difethau y treiniau. Cynig bod mwy o drafodaeth yn digwydd yn y dyfodol.
13.2 Arfon Williams yn cadarnhau fod cwynion gan cyn-gynghorwyr am y diffyg cofnodion ar yr hysbysfwrdd yn y pentref
13.3 Arfon Williams yn cadarnhau llwyddiannau clybiau ieuenctid pel droed y pentref dan 12 a 15. J Roberts an cynnig, Gareth Jones yn eilio grru llythyr I longyfarch
13.4 Dylan Wiiliams wedi cyrraedd rownd terfynnol cystadlaeath bowlio yn Lloegr
13.5 H Huws yn disgwyl canlyniad ymgynghoriad Peilonnau yn Mis Medi ac yn cydnabod bod yno wrthwynebiad sylweddol.
13.6 B Jones yn cadarnhau fod Ffrindiau Parc y Gors wedi derbyn grantiau am welliannau.
13.7 Coeden Nadolig – A Mummery yn cynnig fod angen goleuadau gwell ar y goeden nadolig ond nid oes neb I weld yn gyfrifol. Cyngor Bro sydd yn prynnu y goeden ond mae angen ei gosod I fyny a gosod goleuadau. J Roberts yn cynnig for y Cyngor Bro, Clwb Pel Droed Iau, Pwyllgor y Carnifal a Ffrindiau Parc y Gorsy n cyfarfod I drafod materion gwahanol.

Dyddiad cyfarfod nesaf
Cyfarfod Cyngor Bro - Nos Fawrth 30 Medi 2014 am 7.00 yn y Neuadd Goffa.

Arwyddwyd ………………………………… (Cadeirydd) ………………………………………………Dyddiad